

Cofnodion o Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cyngor Cymuned Llangeitho a gynhelir ar nos Lun
23 Mai 2022 am 8.00 o'r gloch yn Neuadd Jiwbili, Llangeitho
Minutes of Llangeitho Community Council Annual General Meeting held on Monday,
23 May 2022 at 8.00 pm in Llangeitho Jiwbili Hall

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

Presennol/Present

Cyng Daniel Thomas (Gadair/*Chair*), Gwilym Evans, Gerwyn Ebenezer, Myrddin James, Emyr Jones, Rhian Turner, Beryl Evans a Cyng/*Cllr* Rhodri Evans

Ymddiheuriadau/Apologies – Cyng/*Cllr* Gwenfair Owen & PCSO John Evans.

Cyfrion Blynyddol / Annual Accounts

Cylhredwyd copiau o'r cyfrifon drwy e-bost a derbyniwyd yn gywir ar gynnig Cyng Gwilym Evans ac eiliwyd gan Cyng Beryl Evans.

Ethol Cadeirydd / Election of Chairperson

Enwebwyd Cyng Myrddin James (Ward Penuwch) i'r gadair ar gynnig Cyng Daniel Thomas ac eiliwyd gan Cyng Gwilym Evans. Derbyniwyd y swydd a diolchwyd i bawb am ei cefnogaeth. Diolchwyd i Cyng Daniel Thomas am ei waith fel Cadeirydd dros yr 18 mis diwethaf. Cyfarfod i barhau o dan arweinyddiaeth Cyng Myrddin James.

Ethol Is-Gadeirydd / Election of Vice Chairperson

Cynnigwyd Cyng Rhian Turner (Ward Llwynpïod) ar gynnig Cyng Daniel Thomas ac eiliwyd gan Cyng Beryl Evans Derbyniwyd y swydd.

Ethol Archwiliwr Mewnol / Appointment of Internal Auditor

Cynnigwyd Mr Gareth Jones ar gynnig Cyng Beryl Evans ac eiliwyd gan Cyng Gwilym Evans. Cynnigwyd tâl o £20 am archiwilio cyfrifon 2021-22.

Cyflog a Chostau'r Clerc / Clerk Costs & Wages

Ni roddwyd y Clerc unrhyw gostau i fewn am y flwyddyn 2021-22. Cynnigodd y Clerc i beidio a derbyn codiad cyflog am y flwyddyn sydd i ddod, ond i gadw ar £1,340.04 nes fod yna glerc newydd wedi'u penodi.

Seddi Gwag / Vacant Seats

Soniwyd bod yna ddwy sedd wag yn plwyf Gwynfil a un sedd gwag yn plwyf Llanbadarn Odwyn. Gofynnir i'r Clerc gysylltu a Mrs Glynis Davies, Swyddfa Etholiadol, i weld a fyddai modd co-optio'n syth gan fod enwau wedi dangos diddordeb yn y dair sedd, neu os rhaid hysbysebu.

Terfynnir y cyfarfod Blynyddol a pharhawyd efo'r cyfarfod misol.

Datgan Diddordeb/Declaration of Interest – Neb / *No one*

Adroddiad yr Heddlu / Police Report

Derbyniwyd adroddiad yr heddlu drwy law'r Clerc. Atgoffwyd y Cynghorwyr fod nifer o alwadau ffôn scams yn mynd oddi amgylch ac i bawb fod yn ymwybodol taw o HMRC mae'r galwadau mwy diweddar yn dod o.

Cofnodion y cyfarfod diwethaf/Minutes of previous meeting

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf ar gynnig Cyng Gwilym Evans ac eiliwyd gan Cyng Emyr Jones.

Materion yn codi o'r cofnodion/Matters arising from minutes

- Clerc wedi anfon lluniau o'r gwaith oddi amgylch y milwr nôl i CADW, disgwyl derbyn yr arian grant erbyn hyn.
- Cyng Rhodri Evans i drosglwyddo manylion cysylltu cwmni BARCUD i drefnu cyfarfod i drafod parcio ar y lawnt tu allan i tai Gwynfil.
- Gofynnir i'r Clerc gysylltu a Mr Nick Ozzatti, cyswllt lleol ar peiriannau Difib i ddod i sgwrsio efo'r Cyngor Cymuned yn ystod ein cyfarfod nesaf ar nos Lun 6ed o Fehefin 2022 am 8 o'r gloch.
- Gofynnir i Cyng Daniel Thomas dal i barhau efo'r prosiect Llyn Fanod gan ei fod wedi bod ynglwm a'r trafodaethau o'r cychwyn oll, cytunwyd. Diolchwyd i Cyng Beryl Evans am trawsgrifio'r dogfen oedd yn eiddo'r Llyfrgell Genedlaethol. Cyng Daniel Thomas wedi bod mewn cysylltiad a'r cyfreithiwr Edward Harris sy'n mynd i edrych mewn ymhellach i dogfennaeth 'House of Lords' & Lloyd George. Cytunwyd i adael y mater rhwng y cyfreithwyr bellach.

- Grafel oedd wedi cronni ar waelod rhiw Cefn Banadl, Llwynpiod wedi clirio.
- Dwr yn cronni ar bwys Bwlch Ffin, Llwynpiod wedi cael sylw.
- Tyllau yn y ffordd ar bwys Ty nant a Bwlchffin, Llwynpiod wedi'u llenwi.
- Grafel oedd wedi llifo allan i'r ffordd ar bwys Penbontbregarreg wedi derbyn sylw.
- Twll yn y ffordd ar bwys 6 Bro Gwynfil ac Aeron View, Llangeitho wedi derbyn sylw.

Cyfrifon / Accounts

- Cyngor Sir Ceredigion (Golau Stryd) £132.88
- Zurich Insurance (5 mlynedd £634.46)
- Zoom (Ebrill & Mai £14.39 x 2) £28.78 – Gan fod cynnal cyfarfodydd dros Zoom bellach wedi dod i ben, cytunwyd i gau'r cyfrif)
- Cyflog y Clerc (Ebrill / Mai) £111.67 x 2 = £223.34
- Taliad 1 o 3 Praesept 2022-23 wedi'u dderbyn £1,833.34

Cytunwyd i dalu'r uchod ar gynnig Cyng Daniel Thomas ac eiliwyd gan Cyng Rhian Turner

Cyngor Sir Ceredigion County Council

- Cais Cynllunio – D Seddon, Crynllwyn Bach – Dim gwrthwynebiad
- Cais Cynllunio – Alan Hall, Pengraig Fach, Penuwch – Cynnigwyd i genfogi'r cais ar gynnig Cyng Gwilym Evans ac eiliwyd gan Cyng Emyr Jones.
- Gwahoddir cynrychiolwyr i fod ar Bwyllgor Moeseg a Safonau – dim gweithrediad.

Un Llais Cymru / One Voice Wales

Dim i'w gofnodi

Gohebiaeth/Correspondence

- Ceisiadau am gymorth ariannol wedi'u dderbyn oddi wrth – Cffi Llangeitho; Elusen Ambiwlans Cymru; CFFI Ceredigion – cytunwyd i adael y penderfyniad i ddosbarthu arian am y tro.
- Cytunwyd i gefnogi'r Eglwysi a'r Capeli yn y dair ward drwy gyfrannu £200 yr un iddynt tuag at costau torri porfa'r mynwentydd – cyfanswm o £1,000

Unrhyw Fater Arall/Any Other Business

- Soniwyd bod y borfa wedi tyfu ar y palmant sydd ar y ffordd lawr i Bont Llangeitho.
- Coeden yn pwyso dros y bont, angen ei thorri nôl, Clerc i gysylltu a'r Cyngor Sir Ceredigion.
- Ffordd heibio Parchrhydderch lawr am Betws Leuce angen sylwi i lenwi'r tyllau yn y ffordd.
- Soniwyd bod angen offer chwarae yn y parc ar gyfer plant hyn yr Ysgol Gynradd. Cyng Rhodri Evans i ymchwilio mewn i grantiau ar gyfer meysydd chwarae.
- Mainc bren yn y parc angen sylw, Cyng Beryl Evans i drosglwyddo lluniau i'r clerch i asesu.
- Caniatad wedi'u roi i pwyllgor Gwlanfomio'r gymuned i ddodi addurniadau gwlan oddi amgylch arwyddion y pentre.
- Soniwyd bod darn o'r goeden Ywen ar y cylchfan yn dechrau marw, Cyng Rhodri Evans i drefnu bod Paul Evans o'r Cyngor Sir yn dod allan i asesu'r sefyllfa ac o bosibl rhoi twll yn y llawr iddi gael dwr.
- Pwyllgor codi arian yr Eisteddfod Genedlaethol wedi cwrdd a chytuno bod angen tacluso'r pentref cyn yr Eisteddfod. Gofynnir i'r Cyngor Cymuned am gyfraniad tuag at prynu a plannu'r blodau oddi amgylch y dair ward, cytunwyd i gyfrannu £300 ar gynnig Cyng Beryl Evans ac eiliwyd gan Cyng Gwilym Evans. Cytunwyd i wahodd Mrs Sian Davies a Mr Ken Richards i'r cyfarfod nesaf i gael fwy o wybodaeth am ei cynlluniau. Soniwyd bod angen paentio y wal oddi amgylch y goeden Ywen hefyd. Cytunwyd i bawb ddod at ei gilydd i lanhau'r arwyddion yn y gymuned. Angen strimio oddi amgylch y pentrefi a glanhau'r chwin.
- Angen ail osod arwydd sy'n dangos y cylchfan ar wal ty Noddfa.
- Angen paentio'r gair STOP ar bwys y dafarn y Tair Bedol.

Dyddiad a Lleoliad y cyfarfod nesaf/Date & location of next meeting

Cynhelir y cyfarfod misol nesaf ar nos Lun 6ed o Fehefin am 8 o'r gloch yn Ffestri Capel Llwynpiod os yw'n fodlon ail agor i'r Cyngor neu Ffestri Capel Penuwch.